| CYFARFOD | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
|---|---|
| DYDDIAD | 28 Mehefin 2021 |
| TEITL | Balansau Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2020/21 |
| PWRPAS | Cyflwyno er gwybodaeth |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr adroddiad |
| AWDUR | Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion |

**1 <u>Cyfrifon Terfynol 2020/21</u>**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2021 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2021 -

| | canran | 31/03/2020 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2021 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.09% | £2,469,193 | +£3,377,997 | £5,847,190 | 15.91% |
| Dilynol | 9.20% | £398,894 | +£257,234 | £656,128 | 11.54% |
| Uwchradd | 4.39% | £1,428,561 | +£2,420,162 | £3,848,723 | 11.09% |
| Arbennig | 0.91% | £36,343 | +£364,879 | £401,222 | 9.52% |
| **Cyfanswm** | **5.72%** | **£4,332,991** | **+£6,420,272** | **£10,753,263** | **13.22%** |

1.3 Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol yn sgil COVID-19. Yn ystod tymor Haf 2020 ac eto wedyn ym mis Ionawr/Chwefror roedd yr ysgolion ar agor i ddisgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol yn unig.

1.4 Derbyniwyd grantiau gan Llywodraeth Cymru yn 2020/21 er mwyn rhyddhau adnoddau i ysgolion yn 2021/22, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd. Tydi sefyllfa balansau ysgolion Gwynedd ddim yn unigryw.

1.5 Nid oedd yr un ysgol mewn diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol o gymharu gyda 5 ysgol ar ddiwedd 2019/20 gwerth -£136,608.

1.6 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi cynyddu o £2,048,358 (60 ysgol) ar 31/03/2020 i £6,738,553 (94 allan o 96 ysgol) ar 31/03/2021. Dwy ysgol sydd ddim gyda balansau dros 5%.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –

- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir erbyn 25 Mehefin 2021
- yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda'r ysgol bydd yr Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio'r balansau a hynny erbyn 30 Medi 2021
- adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu'r arian yn ôl erbyn 31 Rhagfyr 2021
- mae cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella'r ysgol

2.3 Mae atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 47 ysgol gynradd (amrywio rhwng £241-£176,957 uwchben trothwy £50mil)
- 2 ysgol ddilynol (amrywio rhwng £98,978-£357,150 uwchben trothwy £100mil)
- 12 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £63,055-£548,636 uwchben y trothwy £100mil)
- 2 ysgol arbennig (amrywio rhwng £91,726-£109,496 uwchben y trothwy £100mil)

## 3. Casgliad

3.1 Nid yw datganiad ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2021 wedi'i gyhoeddi eto, ond mae awdurdodau eraill yn adrodd ar gynnydd ym malansau ysgolion eleni.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gydag ysgolion i wneud defnydd doeth o'r balansau sylweddol sydd ar gael yn 2021/22.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**